# CYLCHLYTHYR LLES

# Y NADOLIG

RHAGFYR 2025

YGCR

## Cwtsh y Nadolig

Gwelwyd lansiad blynyddol ein hapêl Cwtsh y Nadolig yr hanner tymor hwn! Unwaith eto, bu cymuned Cwm Rhondda yn hynod o hael wrth ein cefnogi gyda rhoddion o anrhegion a bwyd. Diolch anferthol hefyd i NandosUK am ei gyfraniad anhygoel o fwyd ac anrhegion di-ri am 6 pherson ifanc a'iu brodyr a chwiorydd. O ganlyniad i'ch haelioni, paratowyd hamperi bwyd i **19** o deuluoedd, ac roeddem yn hynod o ffodus i dderbyn cynnig anhygoel gan Rhian Webber i ddarparu hamper cinio Nadolig i **6** theulu! Diolch hefyd i Blakemore Retail SPAR Treherbert am daleb gwerth £50 ac i Bethan Al-Nemah am wneud y cais ar ran Cwtsh y Cwm.

Mae eich caredigrwydd yn wirioneddol adlewyrchu ysbryd y Nadolig – rhannu, gofalu a dod â llawenydd yn ystod cyfnod sy'n gallu bod yn heriol i nifer.

Cofiwch fod Cwtsh y Cwm ar agor trwy gydol y flwyddyn.

– Cwtsh@ygcwmrhondda.cymru









## Gwobrwyo

Cynhaliwyd ein seremonïau gwobrwyo diwedd blwyddyn lle gwobrwywyd ein dysgwyr am eu **Cynnydd, ymdrech, gwaith** a'u **presenoldeb**. Da iawn i bawb enillodd dystysgrif!

Ymlaen â ni i 2026!



## Tîm Bugeiliol

**Bl. 7**: Mrs Seaton
**Bl.8:** Mrs Bessant
**Bl.9:** Ms Jones
**Bl.10**: Mrs Richards
**Bl.11**: Mrs Baker
**B12/3**: Mrs Morgan
**ALNCo**: Mrs Roberts
**Prifathro Cynorthwyol/Prif Swyddog Diogelu:** Mrs Griffith

## Beth ydyn ni wedi ei ddysgu?

**Blwyddyn 7**

**Hunan gysyniad a glasoed**

**Blwyddyn 8**

**Sylweddau- fepio, caffein, hunan ofal**

**Blwyddyn 9**

**Peryglon alcohol**

**Blwyddyn 10**

**amddefnyddio sylweddau**

**Blwyddyn 11**

Digartrefedd

## Ymwelwyr

- Ace media Cymru gyda Bl 7 &8,- wedi cael gweithdai troseddau cyllell
- Ace media Cymru gyda Bl 7 gweithdai exploitation
- Smashed wedi bod gyda Bl 7&8 yn codi ymwybyddiaeth o beryglon alcohol
- Media Academi Cymru- positive masculinity- gweithdai gyda bechgyn Bl 9 a 10
- Platfform &NSPCC yn gweithio gyda disgyblion y Senedd yn y den digidol

**Rydym hefyd wedi dysgu am**

- Diogelu ein hiechyd meddwl
- TAShwedd
- Diogelwch ar Noson Tân Gwyllt
- Gosod targedau i wella ar ein perfformiad
- Dangos y carden Coch i Hiliaeth
- Bod yn ffrind da; Gwrth-fwlio
- Parch a Chyfrifoldeb
- Parchu amrywiaeth: Mae pawb yn dysgu ac yn tyfu yn eu ffordd eu hunain

## Wythnosau Ymwybyddiaeth

**Wythnos gwrth fwlio**- gwisgo sanau od, gwneud gwaith ar garedigrwydd a gwrth fwlio mewn gwersi lles- disgyblion wedi creu cadwyni caredigrwydd
**Wythnos ymwybyddiaeth straen**- pynciau wedi trafod sut gall elfennau o'u pynciau nhw helpu gyda straen- ee cerddoroaeth, addysg gorfforol ayyb
**TASHWEDD** disgyblion wedi creu gwaith celf gyda tipiau sut i gadw'n iach







## Blwyddyn 7

Mae Blwyddyn 7 wedi cael hanner tymor hynod brysur unwaith eto! O fewn amser cofrestru, mae dysgwyr yn mwynhau cyfnod darllen unigol bob bore, gan feithrin sgiliau a chariad at ddarllen. Yn ogystal, mae trafodaethau am bynciau amrywiol yn digwydd yn ddyddiol, yn enwedig yn ystod ein cyfnodau estynedig ar ddydd Llun.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Blwyddyn 7 wedi derbyn cyflwyniadau ar bynciau pwysig megis hiliaeth, cyfeillgarwch, diogelwch ar wefannau cymdeithasol, parch at eraill, yn ogystal â chofio digwyddiadau hanesyddol fel trychineb Aberfan a Diwrnod y Cofio.

Yn fwy diweddar, bu PC Leigh Newman yn ymweld â'r ysgol i gynnal gwasanaethau arbennig yn trafod peryglon Noson Tân Gwyllt a'n hymddygiad ar-lein. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhan o'n hymrwymiad i feithrin cymuned ddiogel, barchus a gofalgar i'n holl ddysgwyr.

## Blwyddyn 8

Mae'r tymor cyntaf wedi bod yn llawn cyfleoedd cyffrous y tu allan i'r ystafell ddosbarth:

**Sioe'r ysgol** – Dewin Oz: Roedd nifer disgyblion Blwyddyn 8 yn cymryd rhan ac yn dangos eu doniau ar y llwyfan.

**Canu yn y Senedd** - Roedd pawb yn canu gyda balchder ac egni ac wedi dangos eto'r talent sydd gydag aelodau blwyddyn 8.

**Gemau chwaraeon:** Mae timau'r ysgol wedi cystadlu'n frwdfrydig ac wedi dangos ysbryd tîm gwych.

**Teithiau ysgol**: Bu sawl taith addysgiadol a hwyliog, gan roi profiadau newydd i'r disgyblion.

Penwythnos yn **Llangrannog**: Roedd hwn yn uchafbwynt arbennig – cyfle i fwynhau gweithgareddau awyr agored, dysgu sgiliau newydd, a chryfhau cyfeillgarwch. Roedd hyn hefyd yn cyfle gwych i mi ddod i nabod nifer fawr ohonoch chi'n well a ges i, a'r athrawon eraill a daeth ar y taith amser wych! Diolch 🙂.

**Ffocws y Tymor Nesaf**: Banter neu Fwlio?

Yn ystod amser cofrestri ac yn ein gwasanaethau, byddwn yn trafod y gwahaniaeth rhwng banter a bwlio. Byddwn yn dysgu:

Ble mae'r ffin rhwng jôcs cyfeillgar a sylwadau sy'n brifo.

Sut mae geiriau'n gallu effeithio ar bobl eraill.

Sut i gadw pethau'n barchus a charedig bob amser.

Edrych Ymlaen

**Gyda dechrau mor llwyddiannus, bydd 2026 yn flwyddyn llawn dysgu, llwyddiant a hwyl. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld Blwyddyn 8 yn parhau i dyfu ac i fwynhau pob cyfle!**

## Blwyddyn 9

Yn ystod yr hanner tymor hwn, mae dysgwyr Blwyddyn 9 wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau bugeiliol gwerthfawr, ond hefyd wedi cael ffocws penodol yn eu gwersi lles ar ddiogelwch ar y we a deall y peryglon secstio. Trwy drafodaethau agored, maent wedi dysgu am wneud penderfyniadau diogel ar-lein, diogelu gwybodaeth bersonol a chydnabod risgiau all effeithio ar eu lles digidol.

Yn ogystal, bu'r bechgyn yn rhan o weithdy ar 'positive masculinity', gan archwilio beth mae "masculinity" yn ei olygu iddyn nhw, ble mae gwrthdaro'n gallu digwydd, a strategaethau cadarnhaol ar gyfer ymdopi â sefyllfaoedd heriol. Trafodwyd hefyd rôl y 'bystander', gan ystyried sut gallant gefnogi eraill mewn ffordd ddiogel ac adeiladol.

## Blwyddyn 10

Mae'r disgyblion wedi bod yn garedig iawn yn dod a phethau mewn ar gyfer ein apel Nadolig.  Tymor nesa bydd y disgyblion mas ar brofiad gwaith. Cyfle arbennig iddyn nhw ymchwilio mewn i'r byd gwaith ac i gymryd eu camau cyntaf yn eu gyrfa. Mae profiad gwaith yn gyfle i ddisgyblion Blwyddyn 10 ddatblygu sgiliau pwysig fel cyfathrebu, gweithio mewn tîm, rheoli amser a datrys problemau. Byddant hefyd yn dysgu am ddisgyblaeth proffesiynol, defnyddio technoleg, ac yn ennill hyder wrth ryngweithio â phobl newydd. Yn ogystal, mae’n rhoi dealltwriaeth werthfawr o’r byd gwaith a’r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol.

## Blwyddyn 11

Mae Blwyddyn 11 wedi bod yn brysur yn cwblhau gwaith cwrs ac yn paratoi ar gyfer eu harholiadau paratoadol. Roedd y mwyafrif hefyd wedi sefyll eu arholiadau rhifedd ym mis Tachwedd, edrychwn ymlaen at derbyn eu canlyniadau yn y flwyddyn newydd. Er bod blwyddyn 11 yn un prysur, mae'n bwysig hefyd iddynt cymryd saib dros y Nadolig er mwyn bod yn barod ar gyfer y heriau sydd i ddod yn y flwyddyn newydd.

## Blwyddyn 12/3

Taith Bl 12 i brifysgol De Cymru i gael sesiynau adeiladu tîm a gwneud y gorau o'r 6ed.

Mae Bl 13 wedi ymweld a'r ffair prifysgolion ym mis Hydref yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Dros 50 o brifysgolion ac asiantaethau yno yn cynnig cyngor ac yn rhoi freebies di-ri allan!

Fe ddaeth y gwasanaeth gwaed i mewn ac roedd llwyth o'r 6ed wedi llofnodi lan i fod ar y gofrestr celloedd stem - roedd y gwasanaeth yn hynod hapus gyda'u hymateb bositif.

Mae nifer o ddisgyblion wedi dechrau derbyn cynigion o brifysgolion neu'n mynychu cyfweliadau. Dymunwn bob llwyddiant!

Dug Caeredin - 9 disgybl wedi cychwyn ar eu gwaith i'r wobr arian ac wedi cynrychioli'r ysgol yn y Senedd yn cwrdd gyda'r Dug hefyd.

## Dewin Oz

Mae ein cynhyrchiad diweddar o Dewin Oz wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ond mae'r gwir werth yn mynd ymhell y tu hwnt i'r perfformiad terfynol. Yn ystod yr wythnosau o baratoi, bu'r cast a'r criw yn profi rhywbeth arbennig: ymdeimlad o berthyn, cyfle i wneud ffrindiau newydd, a'r pleser o weithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin.

Mae'r broses ymarfer wedi dangos pa mor bwysig yw'r celfyddydau i lles meddyliol ein disgyblion. Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn llwyfan i ddatblygu hyder, gwytnwch, a sgiliau cymdeithasol, gan roi ymdeimlad cryf o hunanwerth i bawb a gymerodd ran. Nid y llwyfan yn unig sy'n creu'r hud – ond y chwerthin, y cydweithio, a'r foment pan fydd pawb yn teimlo eu bod yn rhan o rywbeth arbennig.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y daith hon. Mae'r profiad wedi profi unwaith eto fod drama'n fwy na pherfformio – mae'n ffordd o fwynhau, tyfu, ac adeiladu cymuned gref yn ein hysgol.





# Llais y Dysgwyr - os ydych ch eisiau i ni wrando, mae rhaid i ni eich clywed!

- Trafodaethau wedi'u cynnal ar sut mae newidiadau mewn cludiant wedi effeithio ar ddisgyblion. Gwybodaeth wedi'i rhannu gyda staff i sicrhau empathi a dealltwriaeth o'r heriau cyn cyrraedd yr ysgol.

Sesiynau gyda Plattform ac NSPCC ar ddiogelwch ar-lein.
Grŵp "Den Digidol" wedi cyflwyno syniad gwefan – enillwyd ail le a thlws lechen hyfryd!
Cynllun i integreiddio'r syniad i'n gwefan "Daioni" yn y flwyddyn newydd.
Tri aelod o'r Senedd wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad yn Stadiwm Principality ym mis Chwefror.

5 aelod o'r Senedd wedi mynychu'r Fforwm Ieuenctid yn Siambr y Cyngor, Pontypridd - hyrwyddo sgiliau arweinyddiaeth, cyfathrebu a chyfranogiad dinesig.
2 o'n Senedd wedi gwneud cais ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru!

Cymuned yr ysgol wedi cymryd rhan yn arolwg Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion er mwyn ein helpu i ddeall teimladau dysgwyr a ffyrdd o wella'r ysgol.
Pob disgybl wedi cael cyfle i gwblhau holiadur. dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Staff, rhieni a llywodraethwyr hefyd yn cael gwahoddiad i gymryd rhan, sy' n ein galluogi i osod targedau llesiant ystyrlon. Dal amser i chi rieni/gofalwyr gymryd rhan pe dymunwch
https://forms.cloud.microsoft/e/uaG0D3fE3f
https://forms.cloud.microsoft/e/08AhcJAFTp

## Gwobrwyo

**Rydym mor falch o ymdrechion ein ddysgwyr y tymor hwn**



































Llongyfarchiadau
a Nadolig llawen
i chi i gyd!













Cynhaliaeth i ddisgyblion YGCR







'DYSG' – CEFNOGAETH I CHI WRTH WYNEBU HERIAU GYDA'CH PLANT

# Nadolig llawen

## A BLWYDDYN NEWYDD DDA!

